

Canfyddiadau o **Lais Disgyblion** mewn ysgolion uwchradd fel y nodwyd gan ddisgyblion ledled Cymru

Yn 2023/24, fe wnaethon ni siarad â 98 o ddisgyblion ysgol uwchradd fel rhan o'n gwerthusiad o'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol a gofyn iddyn nhw am weithgareddau llais y disgybl yn eu hysgol a'u canfyddiadau o ba mor effeithiol oedden nhw. Dyma grynodeb o'r hyn a ddywedon nhw.

Roedd amrywiaeth eang o weithgareddau Llais y Disgybl ar draws pob ysgol. Roedd hyn yn cynnwys seneddau a chynghorau ysgolion, grwpiau eco, hyrwyddwyr Cymru, pwyllgorau lles yn ogystal â grwpiau cyfathrebu. Roedd disgyblion ysgolion uwchradd yn ymwybodol o grwpiau llais y disgybl yn eu hysgolion ac yn deall eu cylch gwaith, cysylltodd sawl disgybl bwrpas y grwpiau hyn â hyrwyddo Hawliau Plant mewn ysgolion.



Ystyriwyd bod swyddogaethau'r grwpiau hyn yn aml-lefel - roedd rhai wedi'u hanelu at wneud newidiadau yn yr ysgol, roedd eraill wedi'u hanelu at godi arian, neu drefnu digwyddiadau ysgol fel partïon Nadolig.

Roedd rhai disgyblion yn ansicr a oedd awgrymiadau a wnaed gan grwpiau llais y disgybl yn cael eu cymryd o ddifrif gan aelodau staff yn yr ysgol. Nododd disgyblion uwchradd fod sawl grŵp wedi gofyn am newidiadau i sut mae addysgu a dysgu'n gweithredu ond nad oeddent wedi cael eu gweithredu yn y pen draw gan staff uwch.



Nododd nifer o ddisgyblion newidiadau cadarnhaol yn digwydd yn eu hysgolion o ganlyniad i weithgareddau llais y disgybl, megis newidiadau i ailgylchu a mwy o offer chwarae ar gyfer y maes chwarae. Nododd disgyblion uwchradd eu bod wedi gweld eu gweithgareddau ledled yr ysgol fel arddangosfeydd grwpiau Cymraeg.

Roedd rhwystrau i effeithiolrwydd a chyrhaeddiad llais y disgybl yn cynnwys diffyg cyllid i ariannu amrywiaeth syniadau'r disgyblion, ac os oedd y syniadau a adroddwyd yn cyd-fynd â'r adnoddau o fewn yr ysgolion. Trafododd rhai disgyblion ganfyddiadau y gallai gweithgareddau pleidleisio ar gyfer cynrychiolwyr disgyblion weithiau ddod yn 'gystadlaethau poblogrwydd.'

